# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 5/4/17

**Yn bresennol**:

T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-gadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Gareth Roberts, Gruffydd Williams a R. H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Ashley Batten (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), William I. Hughes (Undeb Amaethwyr Cymru), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog) a John Eric Williams (Cyfeillion Llŷn).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiect AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Arfon Hughes (Cyngor Tref Nefyn), Laura Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd R. H. Wyn Williams, oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf ar ran Cyngor Gwynedd, am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Cydbwyllgor ac ardal Llŷn.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn at y materion isod:

<u>Tirweddau'r Dyfodol Cymru</u>

Nodwyd bod cyrff cadwraethol wedi datgan pryderon yn ddiweddar yn y wasg o ran cynnwys adroddiad drafft yr adolygiad. Pwysleisiwyd bod y partneriaid ynghlwm â'r adolygiad yn weddol gytûn o ran cynnwys yr adroddiad drafft. Adroddwyd o ran amserlen, y byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei rannu gyda'r partneriaid cyn y cynhelir digwyddiad i gyflwyno adroddiad terfynol yr adolygiad yn ystod yr Haf. Eglurwyd bod yr adroddiad yn nodi cynigion o ran annog cydweithio, arbed arian, denu cyllid (ond ddim yn nodi y ceir fwy o arian gan Lywodraeth Cymru) ac yn gefnogol i barhad y Gronfa Datblygu Gynaliadwy.

Nododd aelod bod trafodaethau cynnar yng nghyswllt yr adolygiad wedi cyfeirio at Lywodraeth Cymru'n cyfrannu'n ariannol tuag at yr AHNE a swyddogion i uchafu elfen gwarchod y dynodiad.

Nododd aelod bod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant uwch na'r cyfartaledd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 gyda swyddogion Gwynedd wedi bod yn flaenllaw yn darparu'r dystiolaeth i gyfiawnhau newid y fformiwla dyrannu i adlewyrchu gwir gost gofal yng nghefn gwlad. Ychwanegodd y dylid ystyried gwneud rhywbeth tebyg o ran yr AHNE.

Gofynnodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn i'r aelod gadarnhau enw swyddog y gallai gysylltu yng nghyswllt hyn.

Cais Nova Innovation

Cyfeiriwyd at gais gan Nova Innovation, ar ran Ynni Llŷn, i Ystad y Goron am hawl i ddatblygu cynllun ynni llanw posibl ger Ynys Enlli. Nodwyd bod Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Tudweiliog wedi dod ar draws taflen ymgynghori nad oedd yn cyfeirio at y Cyd-Bwyllgor. Ymhelaethodd y cynrychiolydd bod y daflen yn cyfeirio at yr AHNE ond nid oedd cyfeiriad at ymgynghori efo'r Cyd-Bwyllgor. Awgrymodd y dylid cysylltu efo Ynni Llŷn i ofyn am fwy o wybodaeth am y prosiect ac i nodi wrth Ystad y Goron y dylid ymgynghori â'r Cyd-Bwyllgor ar y cynllun.

Nododd aelod ei fod ar ddallt mai ymgynghoriad cychwynnol yn unig ydoedd o ran y posibilrwydd o ran sefydlu cynllun o'r fath.

Nododd Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Tudweiliog bod y ddogfen yn nodi mai'r cam nesaf fyddai gwneud cais i Ystad y Goron am drwydded, felly dyma'r amser i roi mewnbwn y Cyd-Bwyllgor i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD y dylid cysylltu efo Ynni Llŷn i ofyn am fwy o wybodaeth am y prosiect ac i nodi wrth Ystad y Goron y dylid ymgynghori â'r Cyd-Bwyllgor ar y cynllun.**

Llythyr Cyngor Cymuned Llanaelhaearn

Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi derbyn llythyr gan Gyngor Cymuned Llanaelhaearn yn gofyn am gefnogaeth y Cyd-Bwyllgor i'w cais i Gyngor Gwynedd am olau stryd ar gyffordd Trefor ar sail diogelwch ffyrdd. Nodwyd bod Cynllun Rheoli'r AHNE yn nodi y dylid ceisio cyfyngu nifer o arwyddion ffordd a golau stryd o ran llonyddwch felly roedd yn sefyllfa anodd. Nodwyd y cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Pennaeth Rheoleiddio, Aelod Cabinet - Cynllunio a Rheoleiddio, Aelodau Lleol ynghyd â'r Cyngor Cymuned. Adroddwyd bod y Pennaeth Rheoleiddio o'r farn bod y gyffordd yn ddiogel a ni fyddai Cyngor Gwynedd yn gwneud newidiadau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:
- Bod nifer o gyffyrdd tebyg yn yr AHNE, ni ellir cefnogi pob cais.
- Pryder o ran llygredd golau yn y nos ac effaith ar fioamrywiaeth.
- Yn yr achos yma, y dylid gwneud cyfaddawd o ran tywyllwch i fodloni anghenion pobl oherwydd y pryderon diogelwch.
- Nad oedd damwain angheuol ers y lôn newydd.
- Y dylid cefnogi'r bobl leol.
- Ddim yn gyfforddus yn lobio ar y mater ond fe ellir nodi cefnogaeth.
- Y dylid ymateb i'r llythyr gan nodi bod y Cyd-Bwyllgor yn derbyn pryder lleol gan ofyn i'r Cyngor ail-edrych ar y sefyllfa ac os oedd y Cyngor yn dod i benderfyniad bod angen golau stryd ar sail diogelwch nid oedd y Cyd-Bwyllgor yn wrthwynebus.

**PENDERFYNWYD bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn anfon ymateb i'r llythyr, ar ran y Cyd-Bwyllgor, yn seiliedig ar y sylwadau uchod.**

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r newidiadau isod:

- Newid y frawddeg 'Nodwyd y cynhelir cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor pan fu'r adeilad yn cau mwyaf tebygol ym Mhwllheli.' yn y paragraff cyntaf ar dudalen 5 i ddarllen 'Nodwyd pan fudd yr adeilad yn cau, mwyaf tebygol mai ym Mhwllheli y cynhelir cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor.'
- Newid rhan o'r paragraff olaf ar dudalen 6 i ddarllen '…Tynnodd sylw at y ffaith fod rhagor o astudiaethau cyfoes wedi eu cwblhau parthed tyrbinau gwynt a ffermydd solar, gan nodi bod safleoedd y clystyrau o dyrbinau gwynt a gynigiwyd ar sail technegol gan ARUP Associates yn 2012 wedi eu diystyrru gan astudiaethau diweddarach a roddodd ystyriaeth i sensitifrwydd y dirwedd. Roedd y CDLl ar y cyd drafft hefyd yn dynodi tir o amgylch Rhoslan fel yr ardal chwilio flaenoriaethol yn Nwyfor ar gyfer ffermydd solar mawrion oherwydd materion tirweddol yn ogystal â chapasiti'r grid cenedlaethol.'

## 5. PROSIECTAU DIWEDDAR GWASANAETH AHNE LLŶN

Cyflwynodd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn adroddiad ar waith y Gwasanaeth AHNE. Rhoddwyd diweddariad ar y prosiectau canlynol:

- Gwaredu Arwyddion Ffordd Blêr;
- Cylchdeithiau Beics Llŷn;
- Dehongli Tre'r Ceiri;
- Prosiect Ffynnon Aelrhiw.

Nododd aelod ei fod yn ymwybodol bod y bardd Joseph Sherman wedi cyfansoddi barddoniaeth yng nghyswllt Tre'r Ceiri ac fe fyddai'n eu hanfon ymlaen i'r Gwasanaeth AHNE.

Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn at y cyflwyniad a dderbyniwyd yn y cyfarfod blaenorol yng nghyswllt cynllun Rhodd Eryri sef cynllun peilot lle'r oedd ymwelwyr yn cyfrannu tuag at waith cadwraeth yn lleol. Nododd ei fod wedi mynychu digwyddiad a gynhaliwyd yn Llanberis i ddathlu llwyddiant blwyddyn gyntaf y cynllun. Nododd bod 45 busnes yn aelod o'r cynllun erbyn hyn, gyda £3,500 wedi ei gasglu a'u bod yn anelu i gasglu £10,000 erbyn mis Medi.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau yng nghyswllt prosiect tebyg yn yr AHNE, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y cyflwynir mwy o wybodaeth o ran sefydlu prosiect o'r fath ar gyfer yr AHNE i'r cyfarfodydd nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 6. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynwyd adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn a oedd yn manylu ar sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Nodwyd mai £55,000 oedd swm y Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2016/17 ac fe lwyddwyd i ddyrannu'r cyfan. Tynnwyd sylw at yr atodiad a oedd yn cynnwys crynodeb o'r prosiectau a dderbyniodd gyfraniad gan y Gronfa.

Adroddwyd y derbyniwyd cadarnhad fod £55,000 yn y Gronfa ar gyfer 2017/18 ac anogwyd aelodau i hyrwyddo'r Gronfa.

Ymatebodd y Swyddog i gwestiynau/sylwadau'r aelodau yng nghyswllt prosiectau penodol.

Nododd y Cadeirydd ei werthfawrogiad am y gwaith.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 7. AELODAU LLEOL AR Y CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn a oedd yn egluro goblygiadau, a'r broses, o newid cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol o ran nifer yr Aelodau Lleol all fod yn aelodau o'r Cyd-Bwyllgor ar unrhyw adeg yn unol â phenderfyniad y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2015.

Eglurwyd bod y cyfansoddiad presennol yn nodi mai 5 Aelod Lleol all fod yn aelodau o'r Cyd-Bwyllgor ar unrhyw adeg gydag aelodau yn cyfnewid yn dilyn etholiadau lleol. Tynnwyd sylw, ar adeg y gwnaed y penderfyniad, roedd disgwyl y byddai ffiniau wardiau'r ardal yn newid ac y byddai llai o Aelodau Lleol yn cynrychioli wardiau yn yr AHNE (yn rhannol neu gyfan gwbl). Fodd bynnag, ni fu unrhyw newid yn y wardiau, felly roedd cyfanswm yr aelodau gyda wardiau yn yr AHNE (yn rhannol neu gyfan gwbl) yn 11.

Tynnwyd sylw pe byddai'r holl Aelodau Lleol yn rhan o'r Cyd-Bwyllgor, byddai aelodaeth y Cyd-Bwyllgor yn cynyddu o 27 i 33 gyda mwyafrif sylweddol yn aelodau o Gyngor Gwynedd. Amlygwyd bod sedd i gynrychiolydd o bob Cyngor Cymuned yn yr AHNE ar y Cyd-Bwyllgor eisoes.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Gan nad oedd y ffiniau etholiadol yn newid dylid ystyried gadael i'r Aelodau Lleol benderfynu ymysg ei gilydd pwy fyddai'n aelodau o'r Cyd-Bwyllgor.
- Bod Cynrychiolydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig wedi anfon sylwadau i nodi ei fod o'r farn y dylid cadw at 5 Aelod Lleol ar y Cyd-Bwyllgor gan y byddai 11 Aelod Lleol yn newid y cydbwysedd yn ormodol o ran cynrychiolaeth y Cyngor. Roedd yn awgrymu hefyd efallai y gellir newid aelodau ar raddfa o un y flwyddyn er mwyn cael newid graddol.
- Un opsiwn fyddai rhoi cyflwyniad i'r Aelodau Lleol o ran yr AHNE cyn iddynt lenwi ffurflen i nodi pam eu bod eisiau bod yn aelod o'r Cyd-Bwyllgor gan adael y penderfyniad i'r Cyd-Bwyllgor o ran pa aelodau ddylai wasanaethu ar y Cyd-Bwyllgor.
- Anghytuno efo 11 Aelod Lleol ar y Cyd-Bwyllgor gan fod angen trawstoriad/cydbwysedd o ran aelodaeth a ni ddylid gadael y penderfyniad i'r aelodau lleol gan all bod gwahaniaeth barn.
- Y dylid ystyried dyrannu seddi aelodau lleol yn unol â threfniadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor.
- Bod angen pwyso ar y Cynghorau Cymuned i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor.

Cynigiwyd a eiliwyd i gadw nifer yr Aelodau Lleol i 5 ac argymell i'r Cabinet / Aelod Cabinet - Cynllunio a Rheoleiddio y dylid diwygio cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor i nodi y dyrennir seddi Aelodau Lleol yn unol â threfniadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor ac i ddileu'r cymal "Aelodau Cyngor Gwynedd i gael eu cylchdroi yn dilyn etholiadau lleol". Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD cadw nifer yr Aelodau Lleol i 5 ac argymhell i'r Cabinet / Aelod Cabinet - Cynllunio a Rheoleiddio y dylid diwygio cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor i nodi y dyrennir seddi Aelodau Lleol yn unol â threfniadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor ac i ddileu'r cymal "Aelodau Cyngor Gwynedd i gael eu cylchdroi yn dilyn etholiadau lleol".**

## 8. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn rhoi diweddariad ar y gwaith o ddiweddaru ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE. Tywyswyd yr aelodau trwy 4 bennod drafft o Ran 2 o'r cynllun rheoli sef 'Amgylchedd glân a Llonyddwch', 'Cynefinoedd a Bywyd

Gwyllt', 'Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau' a 'Pobol a Chymdeithas' a oedd yn atodiad i'r adroddiad.

Tynnwyd sylw mai dyma'r penodau olaf o'r Cynllun drafft i'w hystyried. Adroddwyd mai'r cam nesaf fyddai llunio cynllun gweithredu i gyd-fynd gyda'r polisïau a thynnu'r holl ddeunydd at ei gilydd i ffurfio Cynllun Rheoli diwygiedig cyflawn mewn ffurf drafft. Yn dilyn hynny bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am o leiaf 6 wythnos cyn dychwelyd i'r Cyd-Bwyllgor gyda manylion o'r ymatebion a dderbyniwyd ac argymhellion.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

<u>Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt</u>

- Tudalen 31 – Y dylid cyfeirio at Ymgyrch Neifion o dan y pennawd 'Rhywogaethau morol'.
- Tudalen 32 - Ddim yn hapus y cyfeirir at allyriannau $CO_2$ o dan y pennawd 'Newid hinsawdd', fe ellir nodi bod newid hinsawdd ond ni ddylid clymu cyfrifoldeb â gweithgareddau dynol. O'r farn bod yr haul yn ffactor mawr o ran newid hinsawdd.
- Bod geiriad polisi BP5 yn wannach na'r hyn a nodir ar dudalen 32. Hefyd, nodir yn y paragraff olaf ar dudalen 32 '…creu ynni adnewyddol ar raddfa addas…', fe ddylid nodi'n fanwl yn y polisïau beth a olygir fel graddfa addas.

<u>Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau</u>

- Bod rhai o'r ffigyrau a gynhwyswyd yn y bennod yn gamarweiniol gan nad ellir cael dadansoddiad mor fanwl o ffigyrau STEAM. Nododd Cynrychiolydd Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn y dylid trafod y ffigyrau efo Steven Jones (Uwch Swyddog Gwasanaethau Twristiaeth) ac y byddai ef hefyd yn fodlon cynorthwyo. Ychwanegodd ei fod yn anodd cael ffigyrau cadarn o ran yr Ardal o Harddwch.

<u>Pobol a Chymdeithas</u>

- Tudalen 55 – y dylid ystyried nodi o dan y pennawd 'Cartrefi Gwyliau a Phrisiau Tai' yr angen i edrych ar y rhesymau pam bod cynifer o dai ar werth mewn rhai ardaloedd penodol o fewn yr AHNE.
- Tudalen 56 - Tlodi Tanwydd - cysylltiad uniongyrchol rhwng y dreth ar garbon a'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn gorfod mewnforio tanwydd oherwydd nid oedd hawl i gael pwerdai llosgi glo newydd, polisïau wedi dilyn at nifer o bobl mewn tlodi tanwydd.
- O ran trefn y penodau, dylid ystyried rhoi'r bennod yma yng nghychwyn y cynllun er mwyn rhoi mwy o bwyslais i'r bennod.
- Bod cymunedau yn heneiddio a'r angen i edrych ar sut y gellir cefnogi unigolion i aros yn eu cynefin. Er nad oedd hyn yn unigryw i'r AHNE, dylid ystyried cyfeirio at y mater.

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y derbyniwyd sylwadau gan Gynrychiolydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ar y penodau drafft ac fe'u hystyrir a'u hymgorffori yn y penodau. Ychwanegodd bod croeso i unrhyw aelod anfon sylwadau ar y penodau ato.

Nodwyd bod y Cynrychiolydd wedi nodi ei fod o'r farn y dylai'r cynllun cyflawn ddod gerbron y Cyd-Bwyllgor cyn mynd allan i ymgynghori. Cafwyd trafodaeth ar y mater. Mewn ymateb i gwestiwn o ran yr amserlen, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn mai'r bwriad oedd ymgynghori ar y cynllun yn ystod mis Gorffennaf gan ddod gerbron y Cyd-Bwyllgor yn ystod mis Medi/Hydref efo'r sylwadau a wnaed yn y cyfnod ymgynghori gan fabwysiadu'r cynllun cyn diwedd y flwyddyn. Daethpwyd i gonsensws y dylai'r cynllun drafft ddod gerbron y Cyd-Bwyllgor cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**

**(ii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn diwygio'r penodau drafft yn unol â sylwadau'r Cyd-Bwyllgor;**
**(iii) cynnal cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor i drafod y Cynllun Rheoli drafft cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30yh a daeth i ben am 6.20yh

____________________________

**CADEIRYDD**